Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 26/11/19

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.Hopcyn (yn y Gadair), D.L.Jones, K.Jones, M.Sarnacki

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.Ll.Davies, E.R.Hughes E.Lovgreen, R.Thomas

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Noson Nadoligaidd y Cyngor, 5ed o Ragfyr 2019, a threfniadau eraill dros gyfnod y Nadolig

Dosbarthwyd rhestr waith ar gyfer Noson Nadoligaidd y Cyngor. Roedd yr eitemau wedi eu lliwio'n felyn ar y rhestr wedi eu sortio, ond roedd angen gweithredu ar y gweddill.

Er fod materion eraill i'w rhoi mewn lle ar gyfer y noson, nododd y Clerc mai'r 2 brif fater oedd angen eu sortio nawr oedd:

(1) Goleuadau Nadolig / Coeden Nadolig

Nodwyd fod y cwmni Highline Installation yn dychwelyd i osod gweddill y goleuadau, ac i osod y goeden Nadolig ger y rinc iâ ar ddydd Llun, yr 2il o Ragfyr a dydd Mawrth, 3ydd o Ragfyr.

Roedd y rinc iâ am achosi rhai problemau ymarferol o ran y Goeden Nadolig, ac ymhelaethodd y Clerc ar hyn. Roedd Michael Lambert Jones wedi bod o gymorth mawr yn yr elfennau technegol o'r gwaith.

(2) Cau'r Ffordd

Roedd y trefniadau mewn llaw ar gyfer cau'r Maes a'r llwybr ar gyfer yr Orymdaith.

Penderfynwyd derbyn y rhestr, ond nodi'r canlynol:

(1) Bod y Clerc yn ymgorffori unrhyw sylwadau ymarferol ynglŷn â'r gweithrediadau ar gyfer y noson i mewn i'r rhestr waith.

(2) Gofyn i bob Cynghorydd gyfarfod am 5.15 p.m. ar y Maes ar y noson.

(3) Gofyn i'r Clerc gysylltu efo Galwch Acw er mwyn gofyn os y gallai un neu ddau o o'r bobl ifanc sydd yn mynd yno i roi'r Goeden Nadolig ymlaen ar y noson.

Gorffennodd y cyfarfod am 5.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____